



Cartref newydd i chi
Cartref newydd i'ch gyrfa

Dyma'r
sector **Tai**

This is
Housing



barcud

CYLCHLYTHYR
Medi 2022

Neges gan Steve Jones Prif Weithredwr Grŵp

Annwyl bawb

Gobeithio i chi gael cyfle i fwynhau'r haf a'r tywydd bendigedig yn ystod gwyliau'r ysgol.

Bu'n ychydig fisoedd prysur i Barcud wrth i ni fynychu'r Eisteddfod a chynnal Cynhadledd Staff a Chyfarfodau Cyffredinol Blynnyddol y Grŵp. Roedd pob digwyddiad yn gyfle i ni gysylltu â thenantiaid, rhanddeiliaid, asiantaethau partner a chydweithwyr mewn gweithgareddau ar raddfa fawr am y tro cyntaf ers dros ddwy flynedd. Roedd yn bleser cael cyfarfod â phobl, trafod materion a chlywed straeon calonogol am ein gwaith a'r gwahaniaeth yr ydym yn ei wneud. Nid ydym yn gwneud popeth yn iawn bob tro, ond mae cael sgysiau am ein gwaith a'r cymorth sydd ar gael yn rhoi sylfaen gadarn i ni ar gyfer ein gwaith yn y dyfodol. Gwnaethom groesawu Aelodau Seneddol, Aelodau o'r Senedd a Chynghorwyr o Geredigion a Phowys er mwyn cryfhau ein partneriaethau a thrafod datblygiadau Barcud a'n gweledigaeth ar gyfer y dyfodol.

Mae hefyd yn braf gweld y gwaith o archwilio ystadau'n ailddechrau unwaith eto.

Mae'r argyfwng costau byw ar feddwl pob un ohonom. Rwy'n falch iawn bod ein Tîm Cynnal wedi gallu crynhoi cyngor a chymorth da iawn.

Mae'r rhain i'w gweld ar dudalen 4. Cofiwch gysylltu â'n tîm os ydych yn ei chael yn anodd ac os ydych yn poeni am eich sefyllfa ariannol. Mae aelodau'r tîm eisoes wedi cynorthwyo cannoedd o bobl ac maent yma i helpu pob un o denantiaid Barcud ledled Ceredigion a Phowys. Rydym yma i fod yn gefn i'n tenantiaid a'n cydweithwyr. Yn y llythyr newyddion hwn hefyd, fe welwch chi ddiweddariad gan Grŵp Monitro Barcud, y wybodaeth ddiweddaraf am Ddeddf Rhentu Cartrefi Cymru, newyddion o'n cynlluniau tai gwarchod, canlyniadau'r Gystadleuaeth Arddio a llawer iawn mwy.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am Barcud, anfonwch nhw i post@barcud.cymru. Bydd aelodau ein tîm Gwasanaethau i Gwsmeriaid yn gwneud eu gorau glas i'ch helpu.

Cymerwch ofal,

Steve Jones



I Gysylltu â Barcud

Dros y Ffôn

Ffoniwch 0300 111 3030

Pwyswch 1 (tenantiaid TC blaenorol)

Gwasg 2 (tenantiaid blaenorol MWA)

Tenantiaid Newydd Barcud?

Eisiau gwbyodaeth leol am ein gwaith?

Pwyswch 1: Os ydych yn byw yng Ngheredigion

Pwyswch 2: Os ydych yn byw ym Mhowys

Trwy'r Post

Barcud, Uned 4, Parc Busnes Pont Steffan,
Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 7HH

Ar-lein

barcud.cymru

Llenwch y ffurflen 'cysylltu â ni' o'n gwefan

Ebost: post@barcud.cymru

Facebook: Barcud

Twitter: @taibarcud


Apwyntiadau Medra

Ar ôl ymgynghori â thenantiaid, gallwn yn awr gynnig apwyntiadau Medra hyd at 5pm ar gyfer gwaith atgyweirio. Ffoniwch 0300 111 3030 i roi manylion y gwaith atgyweirio y mae angen ei wneud, a bydd aelod o dîm Medra yn eich ffonio'n ôl i drefnu apwyntiad ar adeg sy'n gyfleus i chi.

Cynghorion am ffyrdd o arbed ynni wrth goginio

*Trowch y gwres neu'r fflam i lawr
pan fydd y sosban wedi dod i'r berw*

Cydymffurfiaeth â Safon Ansawdd Tai Cymru Mawrth 2022



Yn Cydymffurfio'n Llawn

Dewis y Preswylwyr

Mae'r tenant wedi gofyn yn benodol i'r Gymdeithas beidio â newid, gwella neu adnewyddu elfen sy'n methu SATC. Dim ond lle bo perygl iechyd a diogelwch y byddem yn mynnu i'r gydran gael ei newid.

Cyfngiad Ffisegol

Mae cydran yn methu oherwydd maint yr annedd neu dirwedd y tir cyfagos, e.e. cegin fach nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion o ran gofod neu storffeydd.

Amseriad y Cywiriad

Mae cydran yn methu â chwrdd â'r safon ond y mae wedi'i rhaglennu i'w hadnewyddu o fewn y pum mlynedd nesaf.

Adroddiad Blynyddol

Mae Adroddiad Blynyddol Barcud ar gyfer 2021/2022 ar gael yn awr ar ein gwefan www.barcud.cymru/corporate-documents/?lang=cy

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn rhoi trosolwg llawn o berfformiad y gymdeithas ar sail y saith amcan strategol, a beth y mae'n ei olygu i'n tenantiaid a'n staff. Mae hefyd yn cynnwys crynodeb blynyddol a ddarparwyd gan is-gwmnïau Barcud, sef; Gofal a Thrwsio Powys, Y Gymdeithas Gofal ac EOM. Mae'n hollbwysig myfyrio ynghylch y cyfraniadau cadarnhaol a wnaed gan bawb sy'n ymwneud â'r Grŵp.

CCB Barcud

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Barcud yng Nghanolfan Creuddyn, Llanbedr Pont Steffan, ddydd Iau 22 Medi. Fe'i cynhaliwyd wyneb yn wyneb eleni, gyda chyfle i wylïo'r ffrwd fyw o bell.

Cyflwynodd Kate Curran (Cyfarwyddwr Grŵp – Gwasanaethau Corfforaethol) wybodaeth am ein sefyllfa ariannol fel cymdeithas. Roedd yr asesiad rheoleiddiol llawn cyntaf gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2021 wedi arwain at ddyfarniad llwyddo/llwyddo. Dyma'r dyfarniad uchaf y gellir ei gael ac mae'n adlewyrchu holl waith caled ac ymrwymiad pob un o adrannau Barcud. Bu Kate hefyd yn ystyried datblygiadau o fewn yr Amcanion Strategol.

Bu Prif Weithredwr y Grŵp, Steve Jones, yn sôn am yr heriau a fydd yn wynebu Barcud fel busnes ac yn wynebu tenantiaid a staff yn ystod y gaeaf sydd i ddod.



Grantiau Costau Byw

Efallai y byddwch yn gymwys i gael taliad i'ch helpu gyda chostau byw os ydych yn cael rhai Budd-daliadau neu Gredydau Treth. Mae rhai amodau cymhwyso ar gyfer yr holl grantiau costau byw. Bydd taliadau'n cael eu talu'n awtomatig i chi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) neu Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CTHEM), eich Cyngor lleol a'ch Cyflenwr Ynni. Nid yw'r holl daliadau a ddangosir isod yn drethadwy ac ni fyddant yn effeithio ar y budd-daliadau na'r credydau treth yr ydych yn eu cael.

Grantiau nad oes yn rhaid i chi wneud cais amdanynt

Budd-dal Incwm Isel

Credyd Cynhwysol, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans cyslogaeth a chymorth yn seiliedig ar incwm, Cymorth-dal incwm, Credyd pensiwn.

Dylech eisoes fod wedi derbyn eich taliad cychwynnol o £326 ym mis Gorffennaf 2022

Mae'r taliad nesaf o £324 i'w dalu erbyn 31 Hydref 2022.

Budd-dal Incwm isel

Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant

Mae'n rhaid i bobl sy'n derbyn Credydau Treth aros yn hirach am eu taliad CTHEM, bydd y taliad cyntaf o £326 yn yr hydref a'r ail daliad o £324 yn ystod y gaeaf.

Budd-daliad Anabledd

Taliad Grant DWP o £150 a dalwyd i unrhyw un sy'n derbyn Lwfans Byw i'r Anabl, Taliad Annibyniaeth Bersonol neu Lwfans Gweini ar ôl 20 Medi 2022

Taliad Costau Byw Pensiynwr a Thaliadau Tanwydd Gaeaf

Bydd aelwydydd sy'n derbyn Taliad Tanwydd Gaeaf – sy'n werth £200-£300 ac yn cael ei dalu i bron bob cartref ag o leiaf un person o oedran pensiwn – yn cael £300 ychwanegol ym mis Tachwedd neu fis Rhagfyr

Cynllun Cymorth Bil Ynni

Fydd bob cartref yn derbyn taliad £400 a fydd yn lleihau biliau ynni mewn rhandaliadau 6 mis, gostyngiad o £66 ym mis Hydref a mis Tachwedd ac yna £67 y mis o fis Rhagfyr i fis Mawrth 2023. Debyd Uniongyrchol – Credyd awtomatig i gyfrif Cerdyn Credyd/Taliad Safonol - Credyd awtomatig i gyfrif

Mesurydd Talu Clyfar – Ychwanegiad awtomatig ar gyfrif

Mesurydd Talu Traddodiadol - Taleb i'w chyfnewid

Grantiau fydd yn rhaid i chi wneud cais amdanynt

Cynllun Cymorth Tanwydd Cymru

Ar gael o fis Medi 2022

Bydd eich Awdurdod Lleol yn anfon llythyr atoch i wneud cais amdano ar ôl 26 Medi 2022 Taliad arian parod untro o £200 yw hwn

Os oes angen cymorth ar unrhyw denant(iaid) i wneud cais am Gynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf Cymru, cysylltwch â Thîm Cynnal ar 0300 111 3030

Grant Costau Byw Treth y Cyngor

Ardal Cyngor Powys

Mae grant Costau Byw Treth y Cyngor am £150 i denantiaid mewn eiddo gyda Bandiau Treth y Cyngor A, B, C a D.

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am y grant hwn yw 30 Medi 2022

Os oes angen cymorth ar unrhyw denant(iaid) i wneud cais am Grant Costau Byw Treth y Cyngor, cysylltwch â Thîm Cynnal ar 0300 111 3030

Gostyngiad Cartref Cynnes

Mae'r cynllun newydd 2022/2023 yn agor ym mis Tachwedd 2022.

Taliad credyd o £150 yw hwn i'ch Cyfrif Trydan yn Mis Chwefror/Mawrth 2023.

I wneud cais am y Gostyngiad hwn mae angen i chi wirio gwefan eich Cyflenwyr Ynni

Os oes angen cymorth ar unrhyw denant(iaid) i wneud cais am Gostyngiad Cartref cynnes, cysylltwch â Thîm Cynnal ar 0300 111 3030

Cynllun Help You Dŵr Cymru

Cynllun Here2Help Hafren Dyfrdwy

Os ydych yn cael trafferth gyda thaliadau ar gyfer eich costau dŵr efallai y byddwch yn gymwys i gael gostyngiad yn y taliadau wythnosol/misol?

Os oes angen cymorth ar unrhyw denant(iaid) i wneud cais i Dŵr Cymru/Hafren Dyfrdwy am gymorth gyda chostau dŵr, cysylltwch â'r Tîm Cynnal ar 0300 111 3030

Help a Chymorth Costau Byw

Banciau Bwyd Ardal Ceredigion

Banc Bwyd Jubilee Storehouse, Aberystwyth

Banc Bwyd Llanbedr Pont Steffan

Banc Bwyd Llandysul/Castell Newydd Emlyn

Banc Bwyd Aberaeron

Banc Bwyd Aberteifi

Banciau Bwyd Ardal Powys

Banc Bwyd y Trallwng a'r Cylch

Banc Bwyd y Fyddin Iachawdwriaeth,
Y Drenewydd

Banc Bwyd Llanidloes - Llani Pantri

Banc Bwyd Llandrindod Wells

Banc Bwyd Brecon

Cultivate – Pen Dinas, Y Drenewydd

Cymorth Gyda Chostau Llinell Dir/ Rhynggrwyd a Ffonau Symudol

Mae nifer o gynlluniau gyda thaliadau Llinell Dir/Rhynggrwyd a Ffonau Symudol ar gael i bobl sy'n derbyn taliadau Budd-dal penodol. Cyfweiriwch at:

bit.ly/3Kn460V

Enghraifft: Mae VOXI yn defnyddio Rhwydwaith Vodafone, byddant yn rhoi data diderfyn, galwadau ffôn a negeseuon testun am £10.00 y mis.

Arben Ynni

Os ydych yn cael eich dal mewn contract neu'n methu â thalu'r swm misol y cytunwyd arno, beth am roi galwad i'r darparwr i egluro'ch sefyllfa ac nad ydych yn gallu talu'r costau a cheisio negodi contract mwy fforddiadwy:

bit.ly/3cfJT0F

bit.ly/3dTy7cz

Mae'n bosibl y bydd grantiau ar gael i'ch helpu i dalu eich biliau ynni – gwiriwch beth mae eich cyflenwr ynni yn ei gynning. Defnyddiwch y ddolen isod i wirio eich cyflenwr ynni:

bit.ly/3dKdShI

Cynhaliwch wiriad budd-daliadau, gallwch fod yn gymwys i rai budd-daliadau. Ddolen isod:

bit.ly/3ALZ8Yo

Syndicetiau/Clybiau Olew Gwresogi

Os ydych yn byw mewn ardal wledig ac yn defnyddio olew, ystyriwch ymuno â chlwb olew, lle gallwch brynnu olew mewn swmp gyda'ch cymdogion, a rhannu'r arbedion. Mae clybiau tanwydd yn syndicetiau olew lle mae'r gymuned yn prynu eu olew gyda'i gilydd er mwyn arbed cymaint o arian ag y gallant. Gallwch arbed cymaint ag 8c y litr os byddwch yn ymuno â chlwb tanwydd:

bit.ly/3wurbST

bit.ly/3KkmDLc

bit.ly/3QX1v0o

Defnyddiwr Mesurydd Rhagdal

A ydych yn cael trafferth rheoli eich mesurydd rhagdal, a yw cost ynni yn achosi i chi a'ch teulu deimlo eich bod mewn argyfwng?

Cysylltwch â Tîm Cynnal ar: 0300 111 3030 a gallwn eich cyfeirio at eich Canolfan Cyngor ar Bopeth leol i gael eich ystyried ar gyfer Talebau Banc Tanwydd.

Dyledion a Chyngor



Cysylltwch â'r Llinell Ddyled
Genedlaethol ar:

[0808 808 4000](tel:08088084000)

Cysylltwch â 'Step Change' ar:

[0800 138 1111](tel:08001381111)

Tîm Cynnal Barcud

[0300 111 3030](tel:03001113030)



Ydych chi yn cael trafferth gyda chyllid?

Ydych chi'n ei chael hi'n anodd rheoli'ch cartref?

Oes angen help ychwanegol arnoch i reoli eich tenantiaeth?

Mae'r Tîm Cynnal yma i chi.

Gallant gynnig cyngor a chefnogaeth a'ch cyfeirio at help. Gallant hefyd rannu'r baich wrth lenwi ffurflenni a'ch arwain drwy'r system. Peidiwch â mynd i ddyled bellach. Ffoniwch ein gwasanaethau cwsmeriaid a gofynnwch am y Tîm Cynnal.

Archwiliadau o Ystadau yn Llanandras

Bu aelodau Grŵp Monitro Barcud yn cynnal archwiliadau o dair ystâd yn Llanandras, Powys ym mis Gorffennaf 2022. Aeth staff o Barcud gyda'r grŵp o denantiaid i gynnal yr archwiliadau. Roedd yn ddiwrnod heulog braf ac roedd y tair ystâd yn adlewyrchu cyfuniad o wahanol arddulliau a dyddiadau adeiladu, o ddechrau'r nawdegau i eleni.

Yn ystod yr archwiliadau, sylwodd y tenantiaid ar gerbyd a oedd efallai wedi'i adael, rhai arwyddion yr oedd eu hangen, a rhai ardaloedd a oedd wedi tyfu'n wyllt ac yr oedd angen rhoi sylw iddynt.



Roedd ganddynt ddiddordeb hefyd yn y golau stryd clyfar a oedd wedi'i osod ar y datblygiad mwyaf newydd, sy'n rhedeg ar ynni'r haul ac ynni'r gwynt. Ar hyn o bryd, mae'n monitro glawiad ac ardaloedd biogadw ar yr ystâd a bydd yn anfon rhybuddion ynghylch cynnal a chadw'n ôl i Barcud.

Mae archwiliadau o ystadau yn un ffordd o blith nifer lle mae tenantiaid yn helpu i fonitro holl wasanaethau Barcud, ac rydym yn gwerthfawrogi eu mewnbwn yn fawr. Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan a helpu Barcud i wella'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i chi, mae croeso i chi gysylltu. Ffoniwch 0300 111 3030 neu anfonwch ebost i post@barcud.com

Piano Cyngerdd

Mae llawer o breswylwyr Cynllun Tai Gwarchod Bodlondeb yn Llanidloes yn ymgasglu yn y lolfa gyffredin, nid yn unig ar gyfer prydau bwyd a chyfarfodydd ond hefyd er mwyn cymdeithasu â'i gilydd ac â'u hymwelwyr.

Mae piano yn y lolfa ers peth amser. Yn ddiweddar, mae un o'r preswylwyr wedi bod yn ei chwarae'n rheolaidd er mwynhad y preswylwyr eraill.

Yn anffodus, nid oedd y piano wedi'i diwnio ers amser maith. Gwnaeth y preswylwyr gais i weld a fyddai modd i ni drefnu bod y piano'n cael ei diwnio gan ddefnyddio ein cyllid Budd Cymunedol. Yn ffodus, cafodd y gwaith ei wneud ym mis Gorffennaf gan Stuart Jones Piano Sales, Y Drenewydd. Erbyn hyn, gyda'r piano bellach mewn tiwn, mae'r preswylwyr yn gallu cael y sain gorau a mwynhau'r piano yn fwy fyth!



Cynghorion am ffyrdd o arbed ynni wrth goginio

Paratowch sawl pryd gyda'i gilydd



barcud

Cynhadledd i Denantiaid

Dydd Iau 20 Hydref 2022

10.30am – 2:00pm

“Barcud – Yma i Helpu”

Dewch i glywed am Grŵp Monitro Barcud a chael gwybod mwy am:

- LoRaWAN – Rhwydweithiau Ardal Eang Pellter Hir – sut y maent yn gweithio
- Budd-daliadau a chymorth – sut y gall Barcud helpu
- Egluro'r cap ar brisiau ynni a pha gymorth sydd ar gael
- Blaenoriaethau Barcud

Cinio a phaneidiau AM DDIM!

Cyfle i ennill gwobrau AM DDIM!

Trafnidiaeth AM DDIM!

Help gyda chostau gofal plant!

Clwb Pêl-droed Tref Aberystwyth

Coedlan y Parc, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1PG

Os byddwch yn mynychu ac os oes gennych unrhyw anghenion dietegol arbennig a/neu bod angen trafnidiaeth AM DDIM arnoch, cysylltwch â'r

Tîm Gwasanaethau i Gwsmeriaid ar

0300 111 3030 erbyn **dydd Gwener 14 Hydref**

Nodwch y bydd cyfarfod nesaf Fforwm Cyswllt y Tenantiaid yn cael ei gynnal yn y Drenewydd.

Cyllid Loteri i Gymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr Broteifi



Mae Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr Broteifi wedi cael £10,000 gan y Loteri Genedlaethol, a fydd yn helpu i ariannu gweithgareddau a digwyddiadau i'r sawl sy'n byw yn y Cynllun Tai Gwarchod yn Aberteifi. Meddai Sonia Lawrence, Cadeirydd y Gymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr, "Bydd y cyllid hwn yn helpu gyda chostau digwyddiadau ac yn sicrhau bod yr holl denantiaid yn ein cymdeithas yn cael cyfle i gymryd rhan a mwynhau'r gweithgareddau niferus sydd gennym ar y gweill."



Tenant y Flwyddyn TPAS!



Llongyfarchiadau mawr i Gadeirydd Grŵp Monitro Barcud – Paul Clasby – ar ennill Gwobr Tenant y Flwyddyn TPAS Cymru ar gyfer 2022.

Cafodd y wobr ei chyflwyno yn seremoni flynyddol TPAS yng Nghaerdydd ar 6 Gorffennaf. Ar ôl cyfyngiadau Covid, roedd yn hyfryd bod Paul wedi gallu mynychu'r seremoni a mwynhau'r ganmoliaeth haeddiannol.

Dyma newyddion gwych, ac mae'n cydnabod gwaith caled Paul gyda'r Grŵp Monitro sy'n cynorthwyo tenantiaid a chydweithwyr Barcud. Mynychodd Sue Thomas, Uwch Swyddog Cynnwys Tenantiaid Barcud, y digwyddiad gyda Paul a'i wraig, Anita.


Cynghorion am ffyrdd o arbed ynni wrth goginio

Defnyddiwch sosban sydd o'r un maint â'r hob

Arolwg Sydyn o Fodlonrwydd

Ym mis Tachwedd, mae'n bosibl y byddwch yn cael galwad ffôn gan aelod o staff Barcud a fydd yn cynnal arolwg sydyn o fodlonrwydd er mwyn cael gwybod beth yw eich barn am ein gwasanaethau. Cwestiynau safonol Llywodraeth Cymru yw'r cwestiynau, ac mae disgwyl i bob cymdeithas dai yng Nghymru eu gofyn i'w tenantiaid bob blwyddyn. Dim ond ychydig funudau y bydd yn ei gymryd, a chaiff y canlyniadau eu cyhoeddi yn ein llythyr newyddion nesaf. Byddant hefyd yn cael eu cymharu â chanlyniadau cymdeithasau tai eraill ledled Cymru.

Gobeithio y byddwch yn fodlon ein helpu gyda'r arolygon hyn, a diolch ymlaen llaw i chi am eich cymorth.



Neges gan Grŵp Monitro Barcud

Henffych, gyd-denantiaid.

Yn ôl yr arfer, mae'r Grŵp wedi bod yn brysur dros yr ychydig fisoedd diwethaf a hoffwn ddiolch i'r aelodau am eu hymroddiad a'u hawydd i weithio mewn partneriaeth â Barcud er budd pawb.

Ar wahân i'n gweithgareddau rheolaidd sy'n cynnwys cyfarfodydd misol â Barcud ac archwiliadau ailosod eiddo a rheoli ystadau, mae swyddogion y Grŵp wedi cyfarfod â Bwrdd Barcud sawl gwaith ac wedi cyflwyno ein safbwyntiau i Lywodraeth Cymru ar y Safonau Ansawdd Tai arfaethedig ar gyfer 2023 a'u prif ffocws, sef cyflawni Sero Net a sicrhau gwres fforddiadwy. Mewn egwyddor, roeddem yn croesawu cynigion Llywodraeth Cymru, ond mae'r amserlen arfaethedig a'r diffyg cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru yn destun pryder mawr gan fod pen draw ar faint y gall ein rhenti dalu amdano cyn y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru eu codi. Roeddem yn teimlo hefyd na ddylai Llywodraeth Cymru ddibynnu ar denantiaid tai cymdeithasol i gyflawni Sero Net ac y dylai pob math o dai yng Nghymru gael eu cynnwys hefyd. Edrychwn ymlaen at weld sut y bydd Llywodraeth Cymru yn symud yn ei blaen ar ôl yr ymgynghoriad cychwynnol hwn.

Ar ran y Grŵp, hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r tenantiaid a'r staff a fynychodd Fforwm Cyswllt Tenantiaid Barcud ddechrau mis Gorffennaf, sef yr un cyntaf i ni ei gynnal wyneb yn wyneb. Cynhaliwyd y digwyddiad yng Nghlwb Pêl-droed Aberystwyth, ac roedd yn bleser cael croesawu tenantiaid o Bowys a Cheredigion. Roedd yn amlwg cymaint yr oedd y tenantiaid a'r staff wedi gweld eisiau cyfarfod wyneb yn wyneb, ac roedd yr awyrgylch yn hyfryd iawn. Hoffem ddiolch hefyd i John Jenkins, Cadeirydd Bwrdd Grŵp Barcud, am ei bresenoldeb a'i gefnogaeth barhaus i'r Grŵp ac am gydnabod ein gwaith.

Yn dilyn llwyddiant y Fforwm, mae'r Grŵp wedi cytuno i gynnal Cynhadledd Tenantiaid Barcud wyneb yn wyneb eleni ar 20 Hydref yn yr un lleoliad. Byddaf i'n cyflwyno Adroddiad Blyneddol y Grŵp. Byddwn yn cael cyflwyniad ar rai o'r technolegau clyfar y mae Barcud yn dechrau eu defnyddio, sut y gall Tîm Cynnal Barcud helpu,

cyngor am ynni gan Cyngor ar Bopeth yn ogystal â diweddariad gan Steve Jones, Prif Weithredwr Grŵp Barcud. Bydd gwybodaeth ar gael yn fuan ynghylch sut mae cadw lle a pha gymorth fydd ar gael i'ch cludo i'r digwyddiad ac yn ôl, felly cadwch eich llygaid ar agor amdani. Rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth ac yn gobeithio eich gweld chi yno. Mae maint y lleoliad yn golygu mai nifer gyfyngedig o leoedd fydd ar gael efallai, felly peidiwch ag oedi.

Mae'r Grŵp bob amser yn agored i aelodau newydd ac rydym yn awyddus iawn i glywed gan denantiaid sydd rhwng 18 a 45 oed, ond mae croeso i bobl o bob oed. Os hoffech fynychu un o'n cyfarfodydd misol er mwyn gweld beth yr ydym yn ei wneud a pham y mae'r Grŵp a'i berthynas â Barcud yn unigryw yng Nghymru, cysylltwch â Sue Thomas neu Alisa Cakebread ar 0300 111 3030.

Yn olaf, mae'r argyfwng costau byw presennol a'r cynnydd mewn biliau ynni yn peri pryder i ni i gyd. Mae Barcud a Tîm Cynnal Barcud yno i'ch helpu os gallant, felly peidiwch â dioddef yn dawel. Gorau po gyntaf y cysylltwch chi â'r Tîm.

Cymerwch ofal, ac rwy'n gobeithio cael cyfarfod â rhai ohonoch wyneb yn wyneb yng Nghynhadledd Tenantiaid Barcud pan ddaw.

Paul Clasby
Cadeirydd, Grŵp Monitro Barcud.



Cystadleuaeth Lluniau Gerddi 2022

Hoffem ddweud diolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd ran yn y gystadleuaeth lluniau gardd eleni. Roedd y safon yn uchel tu hwnt, gyda gerddi hardd a lliwgar. Mae'n rhaid ei bod angen cryn dipyn o waith i gadw popeth yn edrych mor hyfryd. Diolch i Glwb Garddio y Drenewydd, a fu mor garedig â chytuno i feirniadu'r gystadleuaeth i ni. Roedd yr holl gynigion yn ddienw a roedd gan y deg beirniad benderfyniadau anodd i'w gwneud i ddewis yr enillwyr. Ni fedrem fod wedi cynnal y gystadleuaeth heb eu harbenigedd nhw.

Ydd enillwyr pob categori yn derbyn tystysgrif i gydnabod eu gwaith caled yn eu gerddi a thalebau rhodd £50 National Garden. Mwynhewch eu gwario! Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr.




Arddangosiad Gorau o Flodau (gardd breifat)

Mrs Morrow
Llandysul,
Ceredigion



Basged Grog, Cynhwysydd neu Flwch Ffenestr Gorau

Mr & Mrs Hodges-Small
Presteigne



Arddangosiad Gorau mewn Cynhwysydd Anarferol

Mrs Parker
Machynlleth



Gardd Orau mewn Cynllun Tai Gwarchod

Mrs Middlehurst
Llys Hen Ysgol, Aberystwyth



Gardd Gymunedol Orau (nad yw mewn cynllun)

Gill Davies
Caersws

Gardd Orau i Bryfed neu Nodwedd Gardd Eco/Bywyd Gwylt (dan 16 oed) Cyd-enillwyr



Skye Evans, Llanbadarn Fawr



Victor Wizeorek, Y Drenewydd

Gardd Lysiau Orau - Gwaetha'r modd, nid oedd unrhyw geisiadau yn y categori hwn

Deddf Rhentu Cartrefi 2016

Beth y mae angen i chi ei wybod.

Mae Llywodraeth Cymru yn newid y gyfraith ynghylch sut y mae tenantiaid yn rhentu eiddo yng Nghymru. Mae'r newid yn berthnasol i landlordiaid preifat a chymdeithasol ledled Cymru.

Yr hyn y bydd y newidiadau'n ei olygu:

- Bydd gennych fwy o hawliau olyniaeth i'w trosglwyddo o ran eich cartref
- Bydd tenantiaid yn cael eu galw'n ddeiliaid contract
- Bydd pob eiddo'n ddiogel ac yn addas i fyw ynddo
- Ni fydd y newidiadau'n effeithio o gwbl ar eich rhent ac ni fyddant yn costio mwy i chi
- Rhaid i landlordiaid roi 2 fis o rybudd i denantiaid am unrhyw gynnydd yn y rhent
- Bydd modd i eiddo y cefnwyd arno gael ei adfeddu gan landlordiaid heb orchymyn llys, cyhyd â bod ymchwiliadau wedi cael eu cynnal

Newid yn yr eirfa

Bydd **tenant** yn cael ei alw'n **ddeiliaid contract** (y person sy'n rhentu'r cartref)

Bydd **cytundeb tenantiaeth** yn cael ei alw'n **contract meddiannaeth** (y ddogfen a gewch pan fyddwch yn symud i mewn i'ch cartref newydd)

Pryd y bydd y newid yn digwydd?

Ym mis Rhagfyr 2022, bydd eich cytundeb tenantiaeth yn troi'n awtomatig yn contract meddiannaeth a byddwch yn cael copi ohono ar gyfer eich cofnodion

A fydd fy rhent yn newid?

Na fydd

A fydd angen i fi wneud unrhyw beth?

Bydd yn rhaid i chi ddarllen y contract meddiannaeth newydd ac ymglyfarwyddo ag ef

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ddeddf newydd, sef Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, mae croeso i chi anfon ebost i post@barcud.cymru neu ffonio 0300 111 3030

Cynghorion am ffyrdd o arbed ynni wrth goginio

Rhowch gaead ar unrhyw beth sy'n cael ei gynhesu

Eisteddfod 2022

Cafodd Barcud wythnos wych yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst. Roedd yn braf cael croesawu tenantiaid atom am sgwrs a gweld yr holl blant yn mwynhau ein gweithgareddau. Bu llawer o aelodau tîm Barcud sy'n dysgu Cymraeg yn gwirfoddoli ym Maes D (sef Pentref y Dysgwyr) ac yn ymarfer eu geirfa Gymraeg wrth weini diodydd poeth yn y caffi yn ystod yr wythnos. Mae hynny'n bwysig i ni er mwyn i ni allu cynnig gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg ym mhob rhan o'n busnes.



Prydau Ysgol am Ddim

Mae gwaith wedi dechrau ar gyflwyno polisi Llywodraeth Cymru i ddarparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd yng Nghymru erbyn 2024. Mis Medi 2022 yw dechrau'r cytundeb cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, sy'n ymateb i'r pwysau cynyddol o ran costau byw sydd ar deuluoedd ac i'r uchelgais yr ydym yn ei rannu i fynd i'r afael â thlodi plant a sicrhau nad yw'r un plentyn yn llwgu yn yr ysgol.



Mae prydau ysgol am ddim yn cynnig manteision ehangach hefyd, sy'n cynnwys hybu bwyta'n iach ar draws yr ysgol, cynyddu'r amrywiaeth o fwyd y gall dysgwyr ei fwyta, gwella sgiliau cymdeithasol wrth y bwrdd bwyd, a gwella ymddygiad a chyrhaeddiad.

Bydd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gallu darparu prydau ysgol am ddim i blant dosbarthiadau derbyn o ddechrau tymor yr hydref ym mis Medi 2022, gan ymestyn y cynnig i blant blyneddodedd 1 a 2 erbyn dechrau tymor yr haf ym mis Ebrill 2023 fan bellaf.

Os nad ydych wedi cael gwybodaeth gan ysgol eich plentyn yn barod, cysylltwch â'r ysgol er mwyn sicrhau bod eich plentyn/plant yn cael prydau ysgol am ddim pan gânt eu cyflwyno ar gyfer ei/eu grŵp oedran.

Gallwn eich sicrhau na fydd hynny'n effeithio ar unrhyw fudd-daliadau cysylltiedig eraill.

Sylwer: ni fydd cyflwyno'r cynllun hwn yn effeithio ar blant hyn sy'n cael prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd neu sy'n gymwys i wneud cais i gael prydau ysgol am ddim.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Fforwm Cynlluniau Tai Gwarchod

Roedd cyfarfod y Fforwm, a gynhaliwyd ddydd Gwener 16 Medi, yn llawn dop o sgysiau a chyflwyniadau.

Diolch yn arbennig i Graham a'r tîm o Feiciau Gwaed Cymru am roi darlun i ni o waith yr elusen wych hon. Rwy'n siŵr bod pawb wedi synnu lawn cymaint â fi o glywed eu bod yn rhedeg y gwasanaeth ardderchog hwn gan ddefnyddio rhoddion elusennol yn unig. Mae gwaith y gwirfoddolwyr hyn yn achub bywydau'n aml iawn. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y gwaith gwyh y maent yn ei wneud, ewch i www.bloodbikes.wales.

Roedd yn bleser hefyd cael croesawu Annalise Mowbray yn ôl gydag arddangosfa o'i sgiliau gwnïo a dylunio ardderchog. Mae Anna newydd raddio o'r brifysgol gyda gradd mewn dylunio ffasiwn. Rwy'n credu bod rhai o'r tenantiaid wedi ffansïo ei harddangosfa o hetiau!

Cynhelir cyfarfod nesaf y Fforwm ar 11 Tachwedd, sef cyfarfod ola'r flwyddyn. Dewch â'ch siwmperi a'ch hetiau Nadolig gyda chi oherwydd bydd yna gyfle i chwarae rhai gemau Nadoligaidd, cyd-ganu a mwynhau bwffe i orffen y flwyddyn mewn steil.

Rydym yn cael llawer o hwyl a sgysiau difyr, ac mae'r croeso bob amser yn gynnes. Os ydych yn byw yn un o gynlluniau tai gwarchod Barcud ac os hoffech ymuno â ni, cysylltwch â'ch cydlynnydd cynllun i drefnu cludiant. Caiff pob un o gyfarfodydd y Fforwm ei gynnal ym Mhenrodyn, Aberaeron.

Welwn ni chi ym mis Tachwedd.

Cadwch yn ddiogel,
Tess x

